## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli
Cymru
Senedd Ewrop
60 Rue Wiertz
B-1047 Brwsel
Gwlad Belg

27 Chwefror 2015

Annwyl Nathan

**Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r cynnig i wahardd pysgodfeydd rhwydi drifft**

Ysgrifennaf atoch i dynnu eich sylw at waith a wnaed gan **Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru** ar gynigion y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â gwahardd pysgodfeydd rhwydi drifft. Hoffwn nodi rhai o'r canfyddiadau cychwynnol yn seiliedig ar dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid yng Nghymru gan gynnwys sefydliadau pysgota, cyrff anllywodraethol sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chyrff y llywodraeth.

Er bod y Pwyllgor yn gadarn o blaid gweithredu i ymdrin â physgodfeydd rhwydi drifft mawr anghyfreithlon sy'n achosi difrod i'r amgylchedd**, mae'n pryderu'n ddifrifol am effaith bosibl gwaharddiad cyffredinol.**

**Yr Effaith Economaidd**

Yng Nghymru, mae nifer sylweddol o bysgotwyr y mae pysgota cynaliadwy ar raddfa fach gan ddefnyddio rhwydi drifft yn rhan hanfodol o'u busnes. O'r 280 o gychod rhwydi drifft bach sy'n weithredol yn y DU, mae 70-100 o'r rhain wedi'u lleoli yng Nghymru. Er bod eu nifer yn fach, maent yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r cymunedau pysgota arfordirol y maent yn byw ynddynt. Rydym yn pryderu y gallai cynnig y Comisiwn gael **effaith ddinistriol** ar y sector hwn o'n **fflyd** ac o ganlyniad, ar **ein cymunedau arfordirol.**

**Yr Effaith Amgylcheddol**

Mae tystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan sefydliadau pysgota a sefydliadau amgylcheddol wedi dangos mai **effaith amgylcheddol fach iawn** a gaiff y math o bysgodfeydd rhwydi drifft bach sy'n weithredol yng Nghymru. Rydym yn pryderu y gallai gwahardd y pysgodfeydd hyn annog cychod i ddefnyddio offer megis rhwydi

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA

Ffôn | Tel: 029 2089 8639
E-bost | Email: SeneddEnv@Assembly.Wales

drysu gwaelodol a allai achosi mwy o ddifrod amgylcheddol i famaliaid morol ac adar y môr na rhwydi drifft.

**Gwell Gorfodi a dull gweithredu Rhanbarthol**

Rydym yn gadarn o'r farn y gellid ymdrin â'r problemau a achosir gan bysgodfeydd rhwydi drifft anghyfreithlon drwy atgyfnerthu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a'i gorfodi'n briodol, yn hytrach na chyflwyno gwaharddiad cyffredinol.

O ystyried ei bod bellach yn annhebygol y caiff y cynnig ei dynnu'n ôl yn llwyr, byddem yn cefnogi ymdrechion i gynnwys eithriadau ar gyfer pysgodfeydd rhwydi drifft cynaliadwy bach. Lle bo angen gweithredu i ymdrin ag effaith y pysgodfeydd hyn, credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw drwy fesurau pysgodfeydd rhanbarthol, fel y rhagwelwyd gan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) diwygiedig.


**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Pysgodfeydd**

Fel y cyfryw, mae'n bleser gennym gefnogi llawer o'r cynigion o fewn yr Adroddiad Drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Pysgodfeydd a chredwn eu bod yn gwella cynigion cychwynnol y Comisiwn yn sylweddol. Yn ogystal â'r gwelliannau sydd eisoes wedi'u hawgrymu, byddem yn croesawu gwelliannau pellach er mwyn sicrhau na ellir prynu na gwerthu pysgod a gaiff eu dal drwy ddulliau pysgota anghyfreithlon sy'n defnyddio rhwydi drifft o fewn cadwyn gyflenwi bwyd môr yr UE.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein gwaith a'r dystiolaeth a gasglwyd gennym ar rwydi drifft ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yma.

Edrychwn ymlaen at drafod y materion hyn ymhellach gyda chi a gobeithio y bydd y wybodaeth yn y llythyr hwn o ddefnydd i chi.

Yn gywir,



**Alun Ffred Jones AM**
**Chair of the Environment and Sustainability Committee**